HERITAGE NEWS
NEWYDDION TREFTADAETH

BLAENAVON WORLD HERITAGE SITE NEWSLETTER ISSUE 27 WINTER 2018
CYLCHLYTHYR SAFLE TREFTADAETH Y BYD BLAENAFON RHIFYN 27 GAEAF 2018

BLAENAVON WORLD HERITAGE SITE
SAFLE TREFTADAETH BYD

Well done Kieran!
Da iawn Kieran!
Page/Tudalen 2
Bethlehem Chapel Update
Y Diweddaraf o Gapel Bethlehem
Page/Tudalen 6
Coming Events
Digwyddiadau Nesaf
Page/Tudalen 12

Funding Boost for Blaenavon Conservation Area
Hwb Ariannol i Ardal Gadwraeth Blaenafon

The Blaenavon Conservation Area is set to be the focus of National Lottery investment through a Townscape Heritage Programme. A £1.2 million lottery grant has been awarded to Torfaen County Borough Council who, alongside other partners including Blaenavon Town Council, Cadw and private property owners, will contribute to a £1.9million funding package.

The Programme will deliver physical improvements to the town and support a range of community activities that aim to raise the town's profile, encourage greater footfall and vitality assisting in increasing footfall, business and trade.

Nine properties in need of much needed physical repair and refurbishment, including the Market Tavern, have been identified as being eligible for funding support. The Programme will support high quality, heritage based repair works that will continue the momentum of heritage based regeneration in the town centre.

Richard Bellamy, Head of Heritage Lottery Fund Wales said "We are delighted to support the Blaenavon Townscape Heritage Programme. Thanks to the generous support of National Lottery players, the Blaenavon community will have a fantastic opportunity to explore the development of the town, exploring fascinating stories about how Blaenavon became a thriving industrial town.

Councillor Alan Jones, Executive Member for Business, Tourism, Leisure and Culture, added that "The funding will help us to support local property owners to make heritage-based improvements to their properties, improving the look and feel of the town centre to make it a more attractive place to visit and do business."

Mae Ardal Gadwraeth Blaenafon ar fin dod yn ffocws buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol trwy Raglen Treftadaeth Treflun. Dyfarnwyd grant loteri o £1.2 miliwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a fydd, ochr yn ochr â phartneriaid eraill, yn cynnwys Cyngor Tref Blaenafon, Cadw a pherchenogion eiddo preifat, yn cyfrannu at becyn cyllid gwerth £1.9miliwn.

Bydd y Rhaglen yn darparu gwelliannau ffisegol i'r dref ac yn cefnogi ystod o weithgareddau cymunedol sy'n anelu at godi proffil y dref, annog mwy o ymwelwyr a chynyddu bywiogrwydd fydd yn elwa busnes a masnach.

Nodwyd bod naw eiddo y mae angen eu hatgyweirio a'u hadnewyddu'n sylweddol, yn cynnwys Tŷ Tafarn y Market Tavern, a'u bod yn gymwys i gael cymorth ariannol. Bydd y Rhaglen yn cefnogi gwaith atgyweirio o ansawdd uchel yn seiliedig ar dreftadaeth a fydd yn parhau â'r momentwm o adfywio sy'n seiliedig ar dreftadaeth yng nghanol y dref.

Meddai Richard Bellamy, Pennaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri yng Nghymru "Mae'n bleser gennym gefnogi Rhaglen Treftadaeth Treflun Blaenafon. Diolch i gefnogaeth hael y sawl sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, mi fydd cymuned Blaenafon yn cael cyfle rhagorol i archwilio i ddatblygiad y dref a chlywed hanesion diddorol ynghylch sut y daeth Blaenafon i fod yn dref ddiwydiannol, ffyniannus.

Ychwanegodd y Cynghorydd Alan Jones, Aelod Gweithredol dros Fusnes, Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant; "Bydd y cyllid yn ein helpu i ddarparu cefnogaeth i bobl leol sy'n berchen ar eiddo i wneud gwelliannau'n seiliedig ar dreftadaeth i'w heiddo, gwella edrychiad y dref a'r teimlad sydd yno a'i gwneud yn lle mwy deniadol i ymweld â hi a chynnal busnes yno."

Blaenavon Heritage VC School learning about Blaenavon town centre
Ysgol Wirfoddol a Reolir Treftadaeth Blaenafon yn dysgu am ganol tref Blaenafon

UNESCO

visitblaenavon.co.uk
www.fb.com/visitblaenavon

Well Done Kieran!

Well done to World Heritage Youth Ambassador Kieran who in November took part in the BBC Children in Need Rickshaw Challenge. Kieran volunteers with the Children In Need funded youth service The Hwb on Broad Street.

Kieran (18) formed part of a team of six young people who travelled the 423 mile route from Calais where the team pedalled 31 miles through the service tunnel of the Channel Tunnel - a route only travelled previously by the likes of professional cyclists. Once through the tunnel, the team made their way through England and Wales, before finally finishing in Salford on Friday 16th November, during the BBC Children in Need Appeal Show.

Kieran became a Blaenavon Youth Ambassador in 2014, and in 2017 was awarded a Diana Award for being an inspirational young person. He started attending The Hwb Torfaen a project which uses a Children in Need grant to support NEET young people and engage them with education, develop their skills and encourage volunteering.

Kieran is determined to show other young people, who have been in a similar situation to his, that things can change and hopes to inspire others with his story. He said: "I'm proud to say that I've turned my life around, and I'm grateful for the support of The Hwb Torfaen, their help has enabled me to get to where I am today."

Da iawn Kieran!

Da iawn wir i Kieran, Llysgennad Ifanc Treftadaeth y Byd, a gymerodd ran yn Her Rickshaw Plant mewn Angen y BBC. Mae Kieran yn gwirfoddoli gyda Hwb, sef gwasanaeth ieuenctid a ariennir gan Blant Mewn Angen, ar Broad Street.

Roedd Kieran (18) yn rhan o dîm o chwech o bobl ifanc a deithiodd y llwybr 423 milltir o Calais lle'r oedd angen i'r tîm bedalu 31 milltir trwy dwnnel gwasanaeth Twnnel y Sianel - llwybr a deithiwyd yn flaenorol gan feicwyr proffesiynol yn unig. Ar ôl iddynt deithio trwy'r twnnel, fe wnaeth y tîm eu ffordd trwy Loegr a Chymru, cyn gorffen yn Salford ddydd Gwener 16 Tachwedd, yn ystod Sioe Apêl Plant mewn Angen y BBC.

Daeth Kieran yn Llysgennad Ifanc Blaenafon yn 2014, ac yn 2017 dyfarnwyd gwobr Diana iddo am fod yn berson ifanc mor ysbrydoledig. Dechreuodd fynychu'r Hwb yn Nhorfaen, sef prosiect sydd yn defnyddio grant gan Blant mewn Angen i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc nad ydynt yn derbyn addysg, hyfforddiant nac yn gweithio (NEET) a'u helpu i ailgydio mewn addysg, datblygu eu sgiliau a'u hannog i wirfoddoli.

Mae Kieran yn benderfynol o ddangos i bobl ifanc eraill, sydd wedi bod mewn sefyllfa debyg, bod pethau'n medru newid, a'i obaith yw ysbrydoli eraill gyda'i stori ef. Meddai: "Rwy'n falch o ddweud fy mod wedi troi fy mywyd o gwmpas, ac rwyf yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Yr Hwb, Torfaen, mae eu cymorth wedi fy ngalluogi i gyrraedd y man lle yr ydwyf heddiw."

Heritage Bridging the Generations

Big Pit and Blaenavon Town Council have been leading a project to bring together people of all generations for a monthly activity group. Participants who range in age from 2 to 102 have taken part in arts and crafts, had a showcase of work from artist Jon Pountney, and written poems with writer Patrick Jones, amongst other activities.

The group is run on age friendly and dementia friendly principles, and facilitated by volunteers of all ages, including young people from the Hwb youth provision. Partners who are supporting the project include the Alzheimers Society, Bron Afon Community Housing and the Blaenavon branch of the Royal British Legion.

The next group meeting is at Blaenavon Workmen's Hall on Wednesday 12 December, which will be an intergenerational party with a very special Santa making a guest appearance.

Christmas celebration 1.30pm – 3pm on Wednesday 12 December, Blaenavon Workmen's Hall. Please let us know if you'd like to attend so we can ensure Santa has a gift for everyone, or contact us to find out more about participating or volunteering for the group Tel: 02920 573650.

Treftadaeth yn Pontio'r Cenedlaethau

Mae Pwll Mawr a Chyngor Tref Blaenafon wedi bod yn arwain prosiect i ddod â phobl o bob oed at ei gilydd ar gyfer grŵp gweithgaredd misol. Mae'r cyfranogwyr sy'n amrywio o ran oedran o 2 i 102 wedi cymryd rhan mewn celf a chrefft, cael cyfle i weld gwaith gan yr arlunydd Jon Pountney, ac ysgrifennu cerddi gyda'r awdur Patrick Jones, ymhlith gweithgareddau eraill.

Mae'r grŵp yn cael ei redeg ar egwyddorion sy'n ystyriol o oedran ac sy'n ystyriol o ddementia, ac fe'i hwylusir gan wirfoddolwyr o bob oed, gan gynnwys pobl ifanc o Hwb, sy'n ddarpariaeth i'r ifanc. Mae'r partneriaid sy'n cefnogi'r prosiect yn cynnwys Cymdeithas Alzheimers, Tai Cymunedol Bron Afon a changen Blaenafon o'r Lleng Prydeinig Brenhinol.

Mae cyfarfod nesaf y grŵp yn Neuadd y Gweithwyr Blaenafon, ddydd Mercher 12 Rhagfyr, pan gynhelir parti sy'n pontio'r cenedlaethau, gydag ymweliad gan Siôn Corn arbennig iawn.

Dathliad Nadolig 1.30pm - 3pm ar ddydd Mercher 12 Rhagfyr, Neuadd y Gweithwyr Blaenafon. A fyddech cystal â rhoi gwybod i ni os hoffech fynychu fel y gallwn sicrhau bod gan Siôn Corn anrheg i bawb, neu, cysylltwch â ni i ganfod mwy am gymryd rhan neu wirfoddoli yn y grŵp. Ffoniwch: 02920 573650.

Christmas at the Centre!

Join us at the Blaenavon World Heritage Centre & Library on Saturday the 1st of December 11am-4pm to make unique handmade Christmas gifts with craft activities for all the family to enjoy.

Make a pottery Christmas gift on the Potter's wheel or design and make a colourful Christmas ceramic tile (£1 each per craft activity).

There will be Festive entertainment from Blaenavon Ladies Choir and a Festive menu available in the Heritage Café. Christmas Craft in the Library 11am – 3pm and Christmas stories at 11.30am. Pre booking recommended-Free Entry.

Canolfan Treftadaeth Y Byd A Llyfrgell Blaenafon

Ymunwch â ni yn y Canolfan Tretadaeth y Byd Blaenafon Dydd Sadwrn 1af Rhagfyr 11yb-4yp i wneud anrhegion Nadoligaidd unigryw gyda gweithgareddau crefft i'r teulu cyfan.

Gwnewch anrheg Nadoligaidd o grochenwaith ar olwyn y Crochenydd neu dyluniwch a gwnewch deilsen seramig Nadoligaidd lliwgar (£1 yr un ar gyfer pob crefft unigol).

Bydd adloniant yr ŵyl gan Gôr Merched Blaenafon a bwydlen dymhorol ar gael yn y Caffi. Crefftau Nadoligaidd yn y Llyfrgell 11am – 3pm, straeon y Nadolig am 11.30am, awgrymir bwcio – Mynediad am Ddim.

South East Wales Resilient Uplands

Remember Forgotten Landscapes? The Heritage Lottery-funded scheme delivered a range of projects in the landscape in and around Blaenavon over a four and a half year period between October 2010 and May 2015.

It led to the award winning Natural Resource Management Plan for the South East Wales Uplands, a document that builds on the Forgotten Landscapes Scheme and identifies long-term solutions to declining hill farm incomes, loss of important habitats, and landscape crime.

Funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government, the new South East Wales Resilient Uplands project aims to deliver priority activities from the Natural Resource Management Plan.

A major focus for the three year project will be the restoration of important peat bogs, enhancing moorland habitats and developing better ways to combat illegal off-roading, arson and fly tipping.

Work has already begun. Project partners have re-cut fire breaks on the Blorenge to improve heather habitat and hinder the spread of future wildfires. In addition, hill farmers and volunteers are receiving best practice prescribed burning training delivered by experts from South Wales Fire and Rescue Service and the Brecon Beacons National Park.

For more information contact:
Alvin Nicholas
South East Wales Resilient Uplands Project Manager
Tel: 01495 742418 (2418)
E-mail: Alvin.Nicholas@torfaen.gov.uk

Ucheldiroedd Cydnerth De-ddwyrain Cymru

Cofio Tirweddau Angof? Fe wnaeth y cynllun a ariannwyd gan gynllun Treftadaeth y Loteri gyflawni ystod o brosiectau yn y dirwedd yn ardal Blaenafon a'r cylch dros gyfnod o bedair blynedd a hanner rhwng mis Hydref 2010 a mis Mai 2015.

Arweiniodd at y Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol arobryn ar gyfer Ucheldiroedd De Ddwyrain Cymru, sef dogfen sy'n adeiladu ar y Cynllun Tirweddau Angof ac sy'n canfod atebion hirdymor i incymau ffermydd mynydd sy'n gostwng, colli cynefinoedd pwysig a throseddau ar y dirwedd.

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, nod prosiect Ucheldiroedd Cydnerth De Ddwyrain Cymru yw cyflawni gweithgareddau o flaenoriaeth sydd yn y Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol.

Ffocws mawr ar gyfer y prosiect tair blynedd fydd adfer corsydd mawn pwysig, gwella cynefinoedd gweundir a datblygu ffyrdd gwell o fynd i'r afael â theithio'n anghyfreithlon oddi ar y ffyrdd, cynnau tanau'n fwriadol a thipio anghyfreithlon.

Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau. Mae partneriaid y prosiect wedi ail-dorri pantiau i ddileu tân ar y Blorens i wella cynefin grug a rhwystro tanau gwyllt rhag lledaenu yn y dyfodol. Yn ogystal, mae ffermwyr mynydd a gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant arfer da rhagnodedig ar losgi, wedi'i ddarparu gan arbenigwyr o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag:
Alvin Nicholas
Rheolwr Prosiect Ucheldiroedd Cydnerth De-ddwyrain Cymru
Ffon: 01495 742418 (2418)
E-bost: Alvin.Nicholas@torfaen.gov.uk

Bethlehem Chapel Update

We are situated on Bethlehem Court for those who are unsure of where we are! We have an exciting few months ahead. Grants from the Rural Development Plan, Heritage Lottery Funds Townscape Heritage Programme and Blaenavon Town Council are enabling us to have much needed work done on our building. This will mean that soon we will have lovely premises fit for both church and community use. We are very grateful for all the help and support we have received from so many individuals over the last few years.

At a short service on 21st November we will be giving thanks for our heritage of faith as we hand over the building to the contractors, burying a time capsule at the same time and praying for God's guidance for the future. Do join us.

Y Diweddaraf o Gapel Bethlehem

Bethlehem Court yw ein lleoliad, i'r rheini ohonoch nad ydych yn siŵr lle rydym ni! Mae ychydig o fisoedd cyffrous o'n blaenau. Mae grantiau gan y Cynllun Datblygu Gwledig, Rhaglen Treftadaeth Treflun Cronfeydd Treftadaeth y Loteri a Chyngor Tref Blaenafon yn ein galluogi i gwblhau gwaith mawr ei angen ar ein hadeilad. Bydd hyn yn golygu y bydd gennym adeilad hyfryd cyn hir, sy'n addas i'w ddefnyddio fel eglwys ac adeilad cymunedol. Rydym yn ddiolchgar iawn am yr holl gymorth a chefnogaeth a gawsom gan gymaint o unigolion dros y blynyddoedd diwethaf.

Mewn gwasanaeth byr ar 21ain Tachwedd, byddwn yn diolch am ein ffydd etifeddol wrth i ni drosglwyddo'r adeilad i'r contractwyr, gan gladdu capsiwl amser ar yr un pryd a gweddïo am arweiniad Duw ar gyfer y dyfodol. Ymunwch â ni.

Minister's visit to Big Pit National Coal Museum

Lord Dafydd Elis -Thomas, Minister for Culture, Tourism and Sport recently visited Big Pit National Coal Museum, Blaenavon.

During his short visit Lord Ellis Thomas was briefed about the partnership work and various joint projects that have been implemented successfully between Big Pit, Blaenavon Town Council, Torfaen County Borough Council, Brecon Beacons National Park and the European Route for Industrial Heritage.

The Minister praised the amount and quality of partnership work taking place within Blaenavon World Heritage Site.

Alan S Jones, Executive Member for Business, Leisure, Tourism and Culture at Torfaen Council, and Blaenavon Town Councillor, said:

"The visit was very worthwhile and informative and detailed our vision of Communities working together, especially our Intergenerational Project, which is a huge success of which Lord Ellis Thomas was very complimentary.

"It is encouraging to hear that the work we have been doing in Blaenavon is being recognized at the highest level, and that it is being seen as best practice for how other World Heritage Sites can work better with their communities."

Gweinidog yn ymweld â Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

Daeth yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, i Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon yn ddiweddar.

Yn ystod ei ymweliad byr cafodd yr Arglwydd Elis-Thomas wybod am y gwaith partneriaeth a'r projectau llwyddiannus sy'n digwydd rhwng Big Pit, Cyngor Tref Blaenafon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Thaith Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop.

Roedd y Gweinidog yn llawn canmoliaeth i safon y gwaith sy'n digwydd o fewn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.

Dywedodd Alan S. Jones, Aelod Gweithredol ar gyfer Busnes, Hamdden, Twristiaeth a Diwylliant yng Nghyngor Torfaen, a Chynghorydd Tref Blaenafon:

"Roedd yr ymweliad yn un gwerth chweil, ac yn gyfle i rannu manylion ein gweledigaeth am Gymunedau'n cydweithio, yn arbennig ein Project Pontio'r Cenedlaethau, sy'n llwyddiant mawr. Roedd yr Arglwydd Elis-Thomas yn ganmoliaethus iawn.

"Mae'n galonogol clywed bod y gwaith sy'n digwydd ym Mlaenafon yn cael ei gydnabod ar y lefel uchaf, ac yn cael ei ystyried fel arfer gorau o ran sut y gall Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill weithio'n well gyda chymunedau.

Investment Ensures Hall's Future

The New Year will see an investment of £280,000 which will ensure that the Blaenavon Workmen's Hall continues to be fit for purpose for the foreseeable future. Funding from the Rural Development Fund and match funding from Torfaen County Borough Council, Blaenavon Town Council and the Hall itself has been made available.

Works will include a partition which will separate the Dennis puddle room into two rooms for meetings. New energy efficient lighting and windows will be installed together with new front doors. Additionally, soundproofing for the Cinema, digital stage lighting and a new digital sound system for the theatre will be installed. Repairs to the roof and façade will also be carried out. All in all, £300,000 will have been spent on the Hall by September next year. More spending to upgrade other facilities is also being planned for the future.

A new membership scheme will be launched after Christmas with discounts for members and special events so watch this space!

Blaenavon Community Museum Update

The Museum has been really busy the last few months especially with visits from students. We acquired a spinning wheel which is approximately 150 years old and are shortly to receive some watercolour paintings from the Kennard family. Mr Kennard has kindly agreed to be a life member of the Museum and we are grateful for his continued support.

As part of Museum week we organised a window dressing competition on a Halloween theme. The winner was the Barber shop in Broad Street. Congratulations to all concerned!

We are always eager for new volunteers so if there is anyone interested please pop in, age is no barrier.

Buddsoddiad yn Diogelu Dyfodol y Neuadd

Yn y Flwyddyn Newydd daw buddsoddiad o £280,000 a fydd yn sicrhau bod Neuadd y Gweithwyr Blaenafon yn parhau i fod yn addas at y diben hyd y gellir rhagweld. Mae cyllid gan y Gronfa Datblygu Gwledig ac arian cyfatebol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Tref Blaenafon a'r Neuadd ei hun, bellach ar gael.

Bydd y gwaith yn cynnwys rhaniad a fydd yn gwahanu ystafell pwdlo Dennis yn ddwy ystafell ar gyfer cyfarfodydd. Bydd goleuadau a ffenestri newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn cael eu gosod ochr yn ochr â drysau blaen newydd. Yn ogystal, bydd mesurau yn cael eu rhoi ar waith i sainglosio'r Sinema, bydd goleuadau digidol yn cael eu gosod ar gyfer y llwyfan a bydd system sain ddigidol newydd yn cael ei gosod yn y theatr. Bydd atgyweiriadau i'r to a'r ffasâd hefyd yn cael eu cwblhau. Ar y cyfan, bydd £300,000 wedi cael ei wario ar y Neuadd erbyn mis Medi y flwyddyn nesaf. Mae mwy o wariant i uwchraddio cyfleusterau eraill hefyd yn cael ei gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Bydd cynllun aelodaeth newydd yn cael ei lansio ar ôl y Nadolig gyda gostyngiadau i aelodau ochr yn ochr â digwyddiadau arbennig, felly cofiwch gadw llygad amdanynt!

Y Diweddaraf o Amgueddfa Gymunedol Blaenafon

Mae'r Amgueddfa wedi bod yn brysur iawn yn ystod y misoedd diwethaf, yn enwedig gydag ymweliadau gan fyfyrwyr. Cawsom olwyn nyddu sydd oddeutu 150 mlwydd oed a chyn hir byddwn yn derbyn rhai lluniau dyfrlliw gan deulu Kennard. Mae Mr Kennard wedi cytuno'n garedig i fod yn aelod oes o'r Amgueddfa ac rydym yn ddiolchgar am ei gefnogaeth barhaus.

Fel rhan o wythnos yr Amgueddfa, trefnwyd cystadleuaeth addurno ffenestri ar thema Calan Gaeaf. Yr enillydd oedd y siop Barbwr yn Broad Street. Llongyfarchiadau i bawb dan sylw!

Rydym bob amser yn awyddus i gael gwirfoddolwyr newydd felly os oes unrhyw un â diddordeb, cofiwch alw heibio, nid yw oed yn rhwystr.

Blaenavon's Hall goes from Strength to Strength

Rod Denley-Jones Chair Blaenavon Workmen's Hall provides an update…

Blaenavon Workmen's Hall is enjoying a renaissance with new bookings for conferences and meetings leading the way. The Blaenavon Male Voice Choir are holding their Annual concert on the 1 December. Christmas sees the auditorium hosting Ad-Hoc at the Workmen's 'A Christmas Carol' on 14 and 15 December a family adaptation of the Dicken's favourite with all kinds of Christmas cheer. January sees The Vicar of Dibley end its run with a visit to the hall many more such play's and concerts are planned for the coming months.



The Cinema is also running well with many films attracting an enthusiastic audience. The Grinch. The Nutcracker and the Four Realms, Fantastic Beasts: The Crimes of Grindelvald, A Star is Born, Stan and Ollie and Aquaman are all booked to show.

Shows live streamed from the Royal Opera House include The Nutcracker Ballet on 3rd December and the Opera's The Queen of Spades on 22 January and La Traviata on 30 January. An Oscar Wilde season will be held in the new year as well plus a showing of the new musical Jaime. The Hall's new website will be up and running before Christmas, give it a visit to see what is going on.

Rod Denley-Jones Chair Blaenavon Workmen's Hall.

Neuadd Blaenafon yn mynd o Nerth i Nerth

Dyma ddiweddariad gan Rod Denley-Jones, Cadeirydd Neuadd y Gweithwyr Blaenafon…

Mae Neuadd y Gweithwyr Blaenafon yn mwynhau adfywiad gydag archebion newydd i gynnal cynadleddau a chyfarfodydd yn arwain y ffordd. Mae Côr Meibion Blaenafon yn cynnal ei gyngerdd blynyddol yno ar 1 Rhagfyr. Dros y Nadolig bydd yr awditoriwm yn cynnal 'A Christmas Carol' Ad-Hoc ar 14 a 15 Rhagfyr, sef addasiad o hen ffefryn Dickens i'r teulu oll, felly fydd pob math o ddifyrrwch Nadoligaidd. Ym mis Ionawr daw cyfnod The Vicar of Dibley i ben pan fydd yn ymweld â'r neuadd ac mae llawer mwy o ddramâu a chyngherddau wedi eu trefnu ar gyfer y misoedd nesaf.

Mae'r Sinema hefyd yn gwneud yn dda gyda llawer o ffilmiau yn denu cynulleidfa frwdfrydig. Dyma'r ffilmiau sydd wedi eu trefnu: The Grinch. The Nutcracker and the Four Realms, Fantastic Beasts: The Crimes of Grindelvald, A Star is Born, Stan and Ollie ac Aquaman.

Mae'r sioeau fydd yn cael eu darlledu'n fyw o'r Tŷ Opera Brenhinol yn cynnwys The Nutcracker Ballet ar 3 Rhagfyr a'r Opera The Queen of Spades ar 22 Ionawr a La Traviata ar 30 Ionawr. Bydd tymor Oscar Wilde yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd a bydd y sioe gerdd newydd Jaime hefyd yn cael ei dangos. Mi fydd gwefan newydd y neuadd wedi cychwyn cyn y Nadolig, felly beth am roi cynnig iddi i weld beth sy'n mynd ymlaen.

Rod Denley-Jones, Cadeirydd Neuadd y Gweithwyr Blaenafon.



Events and News at Big Pit National Coal Museum

8,9 & 15 December
Breakfast and brunch with Mother Christmas

Join us for breakfast or brunch with Mother Christmas and visit the elves workshop to make a Christmas decoration or a toy to take home. There'll be a chance for a photograph with Mother Christmas and a present for every child.

Pancakes, crumpets, mini Danish selection and maple syrup, fruit bowl served with a regular filter coffee or Welsh brew tea for adults and unlimited squash for children.

£10 for children; £5 for adults. Pre-booking essential: 029 2057 3650. Supported by players of the People's Postcode Lottery.

8,9 a 15 Rhagfyr
Brecwast a chinio ysgafn gyda Siân Corn

Ymunwch â ni am frecwast neu ginio ysgafn gyda Siân Corn, ymweld â gweithdy'r corachod a chreu tegan neu addurn Nadolig i fynd adref gyda chi. Bydd cyfle i dynnu llun gyda Siân Corn, ac anrheg i bob plentyn.

Crempogau, crympets, teisennau bychan a surop masarn, dysgl ffrwythau gyda choffi ffilter neu de Cymreig ar gyfer oedolion a diod ffrwythau i'r plant.

£10 i blant. £5 i oedolion. Rhaid archebu ymlaen llaw: 029 2057 3650. Gyda chefnogaeth chwaraewyr y People's Postcode Lottery.

January Blues?

Blow away the Christmas cobwebs and January Blues and experience some very different tours at Big Pit throughout January. Whilst the world famous underground tour will be closed for essential maintenance during weekdays in January, our Miner Guides will be on hand to offer a variety of guided surface tours during this time. However, underground tours WILL be available on the weekends throughout January.

Iselder Ionawr?

Anghofwich am y dwrci a dewch i brofi teithiau gwahanol bydd yn digwydd yn Big Pit trwy gydol mis Ionawr. Er bod y daith danddaearol fyd-enwog ar gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol yn ystod yr wythnos ym mis Ionawr, bydd ein tywyswyr wrth law hefyd i gynnig amrywiaeth o deithiau tywys arwyneb arbennig. Ond cofiwch mi fydd y teithiau tanddaearol AR GAEL yn ystod penwythnosau mis Ionawr.

Newyddion a digwyddiadau yn Big Pit

Sunday 16 December
10.30am - 1pm &
1.30pm - 4pm
Father Christmas at the Pit with Blaenavon Town Band

Be amazed as Father Christmas arrives at Pit Top at 10.30am, travelling 300ft UP from underground on his way to Lapland. Once he's arrived (and found his elves!), there'll be an opportunity to visit him in his cottage, until 4pm, and tell him what's on your Christmas list. Music will also be provided by Blaenavon Town Band.

£5 charge to include a gift. Suitable for all children. No booking necessary. Supported by players of the People's Postcode Lottery.

Sul 16 Rhagfyr,
10.30am - 1pm a
1.30pm - 4pm
Siôn Corn yn Big Pit gyda Band Tref Blaenafon

Rhyfeddwch wrth i Siôn Corn gyrraedd pen y pwll am 10.30am, gan godi 300tr o grombil y ddaear ar ei ffordd i Begwn y Gogledd. Ar ôl cyrraedd (a chanfod ei goblynnod bach!), bydd cyfle i'w gyfarfod a dweud wrtho beth sydd ar eich rhestr Nadolig, tan 4pm. Bydd Band Tref Blaenafon hefyd yn chwarae carolau.

Codir tal o £5, yn cynnwys anrheg. Addas i bob plentyn. Nid oes angen cadw lle. Diolch i gefnogaeth hael chwaraewyr People's Postcode Lottery.

A Christmas gift with a difference

Ever wanted to try your hand at the art of blacksmithing OR looking for a unique Christmas present for someone this year? Well, we might have the ideal experience for you at Big Pit!

Come and join Len, our Pit Blacksmith for a special hands-on experience in the Forge. Len has over 50 years of experience of working as a blacksmith and working underground. The session includes a demonstration from Len, blacksmithing tips and tricks and an opportunity to make your own fire poker or ash scraper to take home.

£30 per person, per session. Sessions are available every Monday, Wednesday and Friday throughout January (except Monday 28th January) at 10am and 1pm. Sessions last up to an hour. Maximum 2 people per session. Limited availability so call now to reserve a place: (029) 2057 3650.

Anrheg Nadoligaidd unigryw

Ydych chi erioed wedi breuddwydio am fod yn of neu ydych chi mewn penbleth am anrheg Nadolig unigryw eleni?Wel, falle bod gan Big Pit profiad arbennig i chi!

Dewch i ymuno â Len, Gof Big Pit am brofiad gwych yn yr Odyn. Mae gan Len dros 50 mlynedd o brofiad o weithio fel Gof a danddaear.Mae pob sesiwn yn cynnwys arddangosiad gan Len, a chyfle i greu procer neu grafwr llwch eich hun.

£30 y sesiwn, y pen. Mae sesiynau ar gael bob dydd Llun, Mercher a Gwener ym mis Ionawr (heblaw am ddydd Llun 28ain o Ionawr), 10am a 1pm.

Mae sesiwn yn para am hyd at awr. 2 bobl y sesiwn. Nifer o lefydd cyfyngedig felly archebwch nawr, gan alw: (029) 2057 3650.

Coming Events / Digwyddiadau Nesaf

Handmade Christmas
1 December, 11am – 4pm
Blaenavon World Heritage Centre & Library.
Make unique handmade Christmas gifts with craft activities for all the family to enjoy. £1 each per activity.
Tel (01495) 742333.

Santa Specials
Weekends through December
Pontypool & Blaenavon Railway.
Booking required.
Tel (01495) 707480 or (01495) 707448. www.PBRLY.co.uk.

Father Christmas Grotto
Weekends through December, 11am – 4pm
Blaenavon Ironworks. £5 per child to enter the grotto, including a gift. Pre-booking essential. Last entry 3.30pm.
Tel (01495) 792615.

The Nutcracker Ballet. Live from the Royal Opera House
3 December, 7.15pm
Blaenavon Cinema.
Book via www.ticketsource.co.uk. Tel 01495 792661.

Breakfast and Brunch with Mother Christmas
8, 9 & 15 December
Big Pit National Coal Museum.
£10 for children; £5 for adults.
Pre-booking essential.
Tel 029 2057 3650.
Supported by players of the People's Postcode Lottery.

A Christmas Carol
14 & 15 December, 7.30pm
Blaenavon Workmen's Hall.
Book via www.ticketsource.co.uk. Tel 01495 792661.

Father Christmas at the Pit with Blaenavon Town Band
16 December, 10.30am – 1pm & 1.30pm – 4pm
Big Pit National Coal Museum.
£5 charge to include a gift.
Suitable for all children.
No booking necessary.
Supported by players of the People's Postcode Lottery.

The Vicar of Dibley
19 January, 7.30pm
Blaenavon Workmen's Hall.
Book via www.ticketsource.co.uk. Tel 01495 792661.

The Queen of Spades. Live from the Royal Opera House
22 January, 6.45pm
Blaenavon Cinema.
Book via www.ticketsource.co.uk. Tel 01495 792661.

La Traviata. Live from the Royal Opera House
30 January, 6.45pm
Blaenavon Cinema.
Book via www.ticketsource.co.uk. Tel 01495 792661.

Don Quixote. Live from the Royal Ballet
19 February, 7.15pm
Blaenavon Cinema.
Book via www.ticketsource.co.uk. Tel 01495 792661.

Nadolig o Waith Llaw
1 Rhagfyr,11am – 4pm
Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon a'r Llyfrgell.
Cyfle i wneud anrhegion Nadolig unigryw o waith llaw gyda gweithgareddau crefft i'r teulu oll. £1 y gweithgaredd.
Ffôn (01495) 742333.

Ymweliadau Arbennig â Siôn Corn
Penwythnosau drwy fis Rhagfyr
Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon.
Angen archebu. Ffôn (01495) 707480 neu (01495) 707448. www.PBRLY.co.uk

Ogof Nadolig Siôn Corn
Penwythnosau drwy fis Rhagfyr 11am – 4pm
Gwaith Haearn Blaenafon.
£5 y plentyn i fynd i mewn i'r ogof, yn cynnwys anrheg.
Angen archebu ymlaen llaw.
Mynediad olaf 3:30pm.
Ffôn (01495) 792615.

The Nutcracker. Yn fyw o'r Tŷ Opera Brenhinol
3 Rhagfyr, 7.15pm
Sinema Blaenafon.
Archebwch ar www.ticketsource.co.uk.
Ffôn 01495 792661.

Brecwast a Brecinio gyda Siân Corn
8, 9 a 15 o Ragfyr
Pwll Mawr Amgueddfa Lofaol Cymru.
£10 i blant; £5 i oedolion.
Angen archebu ymlaen llaw.
Ffôn 029 2057 3650. Gyda chefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl.

A Christmas Carol
14 a 15 o Ragfyr, 7.30pm
Neuadd y Gweithwyr Blaenafon. Archebwch ar www.ticketsource.co.uk.
Ffôn. 01495 792661.

Siôn Corn yn y Pwll gyda Band Tref Blaenafon
16 Rhagfyr, 10.30am – 1pm a 1.30pm – 4pm
Pwll Mawr Amgueddfa Lofaol Cymru. Tâl o £5 i gynnwys anrheg. Addas i blant o bob oed. Nid oes angen archebu. Gyda chefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl.

The Vicar of Dibley
19 Ionawr, 7.30pm
Neuadd y Gweithwyr Blaenafon. Archebwch ar www.ticketsource.co.uk.
Ffôn 01495 792661.

The Queen of Spades. Yn fyw o'r Tŷ Opera Brenhinol
22 Ionawr, 6.45pm
Sinema Blaenafon. Archebwch ar www.ticketsource.co.uk.
Ffôn 01495 792661.

La Traviata. Yn fyw o'r Tŷ Opera Brenhinol
30 Ionawr, 6.45pm
Sinema Blaenafon. Archebwch ar www.ticketsource.co.uk.
Ffôn 01495 792661.

Don Quixote. Yn fyw o'r Bale Brenhinol.
19 Chwefror, 7.15pm
Sinema Blaenafon.
Archebwch nawr www.ticketsource.co.uk.
Ffôn 01495 792661.

© 2018 Communication Design, TCBC for the Blaenavon Partnership (2928)